OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 965 (Cy.139)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Swyddogaethau Atodol) 2011

Gwnaed - - - - *28 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *29 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - - *19 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 69(5) ac 89(4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Swyddogaethau Atodol) 2011 a daw i rym ar 19 Ebrill 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "Rheoliadau 2011" ("*the 2011 Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011(**3**); a

(b) mae i "grant ffioedd newydd" ("*new fee grant*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 2(1) o Reoliadau 2011.

Swyddogaethau Atodol

2. Mae'r swyddogaethau a ganlyn, sef swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Reoliadau 2011(**4**), wedi eu rhoi i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru(**5**)—

(**1**) 1992 p.13; diwygiwyd adran 89(4) gan Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddi 2007 (p.25), adran 26 ac Atodlen 1, paragraff 11.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 69(5), i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) — gweler y cyfeiriad at Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**3**) O.S. 2011/886 (Cy.130).
(**4**) Mae adran 69(6) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn disgrifio'r amgylchiadau pan fo swyddogaeth yn swyddogaeth atodol o ran y Cyngor Cyllido.
(**5**) A sefydlwyd gan adran 62 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.